Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 27 Hydref 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | D W Helliwell |
| Y V Jardine | P K Jones | M Sherwood |
| P B Smith | L J Tyler-Lloyd | L V Walton |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
Y V Jardine

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd Louise Gibbard Cyd-aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

---

## 4 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 29 Medi 2020 fel cofnod cywir.

## 6 Cynllun Gwaith 2020 - 2021. (Drafodaeth)

Gwahoddodd y Cadeirydd y pwyllgor i drafod y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020/2021.

Rhoddodd y Cynghorydd Louise Gibbard, y cyn-Gadeirydd, yr wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gwaith 2019/2020 a nododd y canlynol:

- Roedd y strategaeth gydgynhyrchu wedi'i chwblhau ar ffurf ddrafft, y cam nesaf fyddai ei rhoi ar waith.
- Byddai Bwrdd Cydraddoldeb Strategol a Chenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei sefydlu
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r Cynnig Mae Bywydau Du o Bwys

Trafododd y pwyllgor bynciau posib ar gyfer Cynllun Gwaith 2020/2021 a oedd yn cynnwys:

- Cydgynhyrchu
- Strategaeth Ynni
- Ymgysylltu â Staff – gweithio o bell ac effaith COVID-19
- Democratiaeth y cyngor – effaith COVID-19
- Yr Amgylchedd Naturiol
- Polisi Datblygu Cynaliadwy
- Lles
- Cynllun Adfer
- Materion yn codi o'r Bwrdd Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol a COVID-19

Trafododd y pwyllgor hefyd y defnydd o weithgorau a chael adroddiadau ysgrifenedig lle bo hynny'n bosib.

**Penderfynwyd** ar y canlynol; -

1) Y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu â'r Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau/Y Ddirprwy Arweinydd mewn perthynas â datblygu'r Polisi Datblygu Cynaliadwy drafft; a
2) Dylid diweddaru'r Cynllun Gwaith i gynnwys Cydgynhyrchu, Ymgysylltu â Staff, y Strategaeth Ynni a'r Amgylchedd Naturiol.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.55 pm

**Cadeirydd**